Mynediad at Wybodaeth

Mae deddfwriaeth Mynediad at Wybodaeth yn rhoi hawliau mynediad at wybodaeth a gadwir gan gyrff cyhoeddus oni bai bod rheswm dilyn dros ddal yr wybodaeth yn ei hôl.

Fel y Pennaeth, rydych yn wybyddus am wybodaeth a ddalir gan eich ysgol, ac mae unrhyw broblemau yn debygol o godi o ddatgeliad yr wybodaeth a ofynnir amdani.

Gofynnir i chi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob cais a dderbynnir:

- A GADWIR yr wybodaeth ynteu a fyddai'n ofynnol i chi greu'r wybodaeth er mwyn ateb yr ymholiad – mae hyn yn hanfodol bwysig.
- Os yw'r wybodaeth yn bodoli, a allwch godi ffi am ei darparu? Mae gennych yr hawl i godi hyd at £450.00 am leoli, adennill ac ystyried gwybodaeth nad yw'n amgylcheddol. Fodd bynnag, gallwch ond codi ffi os darperir amcangyfrif o gostau rhesymol i'r ymgeisydd o fewn 20 diwrnod gwaith. Nid oes cyfyngiad priodol ar gyfer ceisiadau amgylcheddol ond gellir ystyried ceisiadau mawr yn amlwg yn afresymol {yn amodol ar brawf budd y cyhoedd].
- A yw'r wybodaeth yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei heithrio – yn y cam hwn yn y broses, mae'n ofynnol i chi ystyried a yw'r wybodaeth a ofynnir amdani'n wybodaeth amgylcheddol at ddibenion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r ddwy gyfundrefn fynediad yn debyg ond yn ddigon gwahanol i arwain at gorff o gyfraith achos ar wahân. Mae hyn yn golygu y gellid ystyried bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i heithrio o dan un gyfundrefn ac nid y llall.

  Mae'r eithriadau a restrir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth un ai'n eithriadau absoliwt nad ydynt yn amodol ar brawf budd y cyhoedd neu maent yn eithriadau amodol sy'n amodol ar brawf budd y cyhoedd. Mae'n ofynnol i awdurdodau ystyried a oes eithriad ac yna ystyried a yw budd y cyhoedd yn cael ei weini wrth gynnal yr eithriad neu wrth ddatgelu'r wybodaeth. Os yw cydbwysedd prawf budd y cyhoedd yn gyfartal, mae'n ofynnol i chi ddatgelu'r wybodaeth. Mae gan y cyfundrefnau Mynediad at Wybodaeth ragdueddiad tuag at ddatgelu.

Eithriadau - Absoliwt

- **21 – Yn hygyrch drwy ddulliau eraill -** mae gwybodaeth yn wybodaeth eithriedig os gellir cael mynediad ati gan yr ymgeisydd drwy ddulliau eraill, e.e. gall yr wybodaeth fod ar gael ar wefan yr ysgol. Mae datgan bod yr wybodaeth ar

gael yn eang heb gyfeirio sylw'r ymgeisydd at yr union leoliad yn annhebygol o gydymffurfio â'r gyfraith.

- **40 – Gwybodaeth bersonol -** mae'n berthnasol bod yr ysgol yn derbyn ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cynnwys rhai elfennau o'u data personol eu hunain. Dan y fath amgylchiadau, eithrir yr wybodaeth hon gan y byddai eu data personol eu hunain yn cael ei darparu iddynt dan y Ddeddf Diogelu Data. Y rheswm dros hyn yw bod y datgeliadau dan yr FOI yn cael eu gwneud i'r byd yn eang. Mae Adran 40(2) yn amddiffyn data personol unigolion trydydd parti, os yw gwybodaeth yn disgyn dan ddiffiniad data o fewn y Ddeddf Diogelu Data 2018 ac yn mynd yn groes i unrhyw rai o'r egwyddorion diogelu data.

- **41 – Wedi ei darparu'n gyfrinachol –** mae gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol wedi'i heithrio ond dim ond os byddai hyn yn gyfystyr â thoriad cyfrinachedd y gellir ei weithredu, mewn geiriau eraill, a allai neu a fyddai trydydd parti yn mynd â'r ysgol i'r llys gyda'r tebygolrwydd y byddai eu gweithredoedd yn llwyddo.

- **44 – Gwahardd rhag Datgelu –** mae'r Ddeddf yn cydnabod bodolaeth rhwystrau statudol rhag datgelu. Mae tua 380 darn o ddeddfwriaeth yn cyfeirio at wybodaeth y mae nifer ohonynt wedi mynegi gwaharddiadau ar ddatgelu mathau penodol o wybodaeth.

Eithriadau Amodol

- **22 –Bwriedir ei gyhoeddi yn y dyfodol -** mae gwybodaeth a gadwir gyda'r bwriad o'i chyhoeddi yn y dyfodol yn wybodaeth wedi'i heithrio os yw'n rhesymol dan bob amgylchiad y dylid atal yr wybodaeth tan ddyddiad y cyhoeddiad. Dylid hefyd ystyried budd y cyhoedd ar ôl penderfynu bod yr eithriad ar waith.

- **30 – Ymchwiliadau a Thrafodion –** yn y bôn, mae'r adran hon yn sicrhau na ellir defnyddio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i osgoi'r rheolau datgelu sy'n cwmpasu ymchwiliadau ac achosion troseddol.

- **31 – Gorfodaeth y Gyfraith -** mae'r adran hon yn ymwneud ag effeithiau tebygol datgelu yn hytrach na ffynhonnell yr wybodaeth neu'r diben y'i cynhelir ar ei gyfer (fel yn Adran 30).

- **38 – Iechyd a Diogelwch -** creodd yr adran hon eithriad amodol mewn perthynas â gwybodaeth, sef y gallai datgelu'r wybodaeth honno beryglu iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn.

- **42 - Braint Gyfreithiol/Broffesiynol -** mae'r eithriad amodol hwn yn sicrhau bod cyngor cyfreithiol yn cael ei ddiogelu yn amodol ar brawf o fuddiant y cyhoedd. Fodd bynnag, mae budd cyhoeddus cynhenid yn gysylltiedig â sicrhau na ddatgelir gwybodaeth gyfreithiol freintiedig.

- **43 – Budd Masnachol –** mae'r eithriad hwn yn diogelu'r wybodaeth os yw'n gyfystyr â chyfrinach fasnach neu y byddai datgelu o dan y Ddeddf yn debygol o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson gan gynnwys yr ysgol. Mae llawer o wybodaeth ar gael i bobl a chwmnïau sy'n bwriadu gwneud busnes gyda'r ysgol am eich cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Nid yw'r eithriad hwn yn ymwneud â chyfrinachedd masnachol ond â rhagfarn neu niwed sy'n deillio o ddatgelu.

Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 – Eithriadau.

Mae unrhyw Eithriadau EIR yn rai amodol – nid oes eithriadau absoliwt.

- **Rheoliad 12 (4)(a) – Nid oes gan** yr ysgol yr wybodaeth a ofynnir amdani ar yr amser y derbynnir y cais.

- **Rheoliad 12 (4) (b) -** bod y cais yn **amlwg yn afresymol** (mae rhywfaint o debygrwydd rhwng yr eithriad hwn a nifer o eithriadau Rhyddid Gwybodaeth – y gwahaniaeth nodedig yw bod yr EIR yn rhagdybio datgeliad. Eglurodd y Tribiwnlys Gwybodaeth yn 2007 fod y "trothwy i gyfiawnhau datgelu yn un uchel"). Gellid ystyried bod cais sy'n cael ei ailadrodd, yn flinderus neu'n wahanol i'r terfyn priodol a bennwyd ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn amlwg yn afresymol. Mae'r eithriad hwn yn amodol ar brawf o resymoldeb gyda'r baich cyfrifoldeb yn cael ei roi arnoch i ddangos pam mae cais yn afresymol.

  Rheoliad 9 – mae'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol ddarparu cyngor a chymorth os gallai darpariaethau cyngor a chymorth arwain at fireinio'r cais yn y fath fodd fel nad yw'n gosod baich ar yr ysgol yna byddai'n anodd dibynnu ar yr eithriad hwn.

- **Rheoliad 12(4)(d) –** mae'r cais yn ymwneud â dogfennau heb eu gorffen neu ddata anghyflawn. Mae'r eithriad hwn yn ymdrin â gwaith sy'n mynd rhagddo a gellid ei ddefnyddio i atal datgelu adroddiadau drafft neu waith tebyg arall heb ei orffen. Ystyrir y bydd budd y cyhoedd ar gynnal yr eithriad yn gostwng unwaith y bydd fersiwn derfynol y ddogfen wedi'i chwblhau. Wrth wrthod cais o dan yr eithriad hwn rhaid i'r ysgol bennu'r amser amcangyfrifedig ar gyfer gorffen neu gwblhau'r wybodaeth.

- **Rheoliad 12 (4)(e) -** y byddai cais yn **ymwneud â datgelu cyfathrebiadau mewnol.** Nid yw'r cysyniad o gyfathrebu mewnol wedi'i ddiffinio yn y rheoliadau ond diben y rheoliad hwn yw darparu man meddwl gwarchodedig i awdurdod cyhoeddus. Gallai'r rheoliad gynnwys amgylchiadau tebyg i'r rhai yn Adran 36 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'n bosibl y gallai'r rheoliad gynnwys cyfathrebu rhwng yr ysgol a chynghorydd neu ymgynghorydd allanol ond mae hyn yn dibynnu ar ffeithiau'r achos.

Eithriadau Effaith Anffafriol

Gellir dal gwybodaeth yn ôl pe byddai'n cael effaith anffafriol ar:

- **Reoliad 12(5)(a) – Cysylltiadau rhyngwladol, amddiffyn, diogelwch gwladol neu ddiogelwch y cyhoedd** → Eithriadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau datgelu. Gallai'r eithriad hwn gynnwys gwybodaeth y byddai ei datgeliad yn cael effaith andwyol ar ddiogelu'r cyhoedd, adeiladau cyhoeddus a safleoedd diwydiannol rhag damweiniau neu weithredoedd difrod. Hefyd mewn achosion lle byddai datgelu gwybodaeth yn cael effaith andwyol ar iechyd a diogelwch aelodau o'r cyhoedd neu staff yr ysgol o bosibl.

- **Rheoliad 12 (5)(b) – cwrs cyfiawnder, achos teg, cynnal ymholiad troseddol neu ddisgyblu.** Gallai'r eithriad hwn gynnwys y cysyniad o fraint gyfreithiol gan y byddai datgelu gwybodaeth breifat yn niweidiol i gwrs cyfiawnder. Y pwynt yw bod yn rhaid i ddatgelu gael effaith andwyol ar yr ymholiad yn yr ystyr o achosi rhywfaint o niwed gwirioneddol er mwyn i'r eithriad gael ei gynnwys. Yna byddai'n rhaid i'r ysgol fynd ymlaen i ystyried a chymhwyso'r prawf budd cyhoeddus.

- **Rheoliad 12 (5) (c) – Hawliau Eiddo Deallusol** - byddai'r eithriad hwn yn ymwneud â gwybodaeth a oedd yn destun hawlfraint, patent, marciau masnach neu a oedd yn rhan o ddyluniad cofrestredig. Hawliau eiddo

deallusol yw hawliau a roddir i grewyr a pherchnogion gwaith sy'n ganlyniadau creadigrwydd deallusol dynol. Mae'r eithriad yn diogelu hawliau'r ysgol yn ogystal â thrydydd partïon. Rhaid i'r ysgol allu dangos bod perygl gwirioneddol y byddai datgelu'n tanseilio'r hawliau eiddo deallusol.

- **Rheoliad 12 (5) (d) – cyfrinachedd achosion awdurdodau cyhoeddus pan fyddant yn dod o dan y gyfraith** (ni all awdurdod cyhoeddus ddibynnu ar yr eithriad hwn am wybodaeth amgylcheddol a oedd yn ymwneud ag allyriadau). Nid yw ystyr y term achos wedi'i gyfyngu i achosion ffurfiol – ni fydd yn ddigon bod yr wybodaeth yn ymwneud ag achosion cyfrinachol yn unig - er mwyn i'r rheoliad hwn gael ei gynnwys, rhaid iddo fod yn wir y byddai datgelu'n cael effaith andwyol ar gyfrinachedd y trafodion. Mae'n amlwg hefyd bod yn rhaid i wybodaeth fod wedi'i pharatoi at ddibenion y "trafodion" yn unig.

- **Rheoliad 12 (5) (e) - cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol pan gaiff ei diogelu gan y gyfraith i gwmpasu buddiannau economaidd cyfreithlon** (ni all awdurdod cyhoeddus ddibynnu ar yr eithriad hwn am wybodaeth amgylcheddol a oedd yn ymwneud ag allyriadau). Nid yw'r eithriad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i achos posibl o dorri cyfrinachedd fod yn ymarferol yn wahanol i'r Rhyddid Gwybodaeth. Gallai'r eithriad hwn gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â phroses dendro neu gaffael a byddai'n debygol o gynnwys gwybodaeth a allai fod o werth masnachol i drydydd parti, e.e. cystadleuydd.

- **Rheoliad 12 (5) (f) – buddion yr unigolyn a ddarparodd yr wybodaeth** (ni all awdurdod cyhoeddus ddibynnu ar yr eithriad hwn am wybodaeth amgylcheddol a oedd yn ymwneud ag allyriadau). Mae'r eithriad hwn yn ymdrin â buddiannau person a ddarparodd wybodaeth yn wirfoddol ac a'i darparodd gan ddisgwyl na fyddai'n cael ei datgelu i drydydd parti ac nad yw wedi cydsynio i'w datgelu.

- **Rheoliad 12 (5) (g) – Amddiffyn yr Amgylchedd** (ni all awdurdod cyhoeddus ddibynnu ar yr eithriad hwn am wybodaeth amgylcheddol a oedd yn ymwneud ag allyriadau). Diben EIR a Chyfarwyddeb yr UE a Chonfensiwn AARHUS y maent yn seiliedig arno yw cynyddu diogelwch yr amgylchedd drwy sicrhau mwy o fynediad at wybodaeth amgylcheddol. Er enghraifft, byddai'n anghyson pe bai datgelu gwybodaeth o dan EIR yn arwain at ddifrod i'r amgylchedd.

- **Rheoliad 13 – Data Personol –** o dan y rheoliad hwn, ni fydd yr ysgol yn datgelu data personol os gallai datgelu dorri un o'r egwyddorion diogelu data o'r Ddeddf Diogelu Data neu y byddai'r datgeliad hwnnw'n mynd yn groes i Adran 10 o'r Ddeddf Diogelu Data (difrod neu drallod). Mae eithriad rheoliad 13 ond yn berthnasol i elfen data personol yr wybodaeth amgylcheddol - dyma ddisgwyliad y byddai data personol yn cael ei dynnu allan o'r wybodaeth amgylcheddol, drwy olygu er enghraifft ac y byddai'r wybodaeth amgylcheddol yn cael ei datgelu. Mae'r dull y mae Rheoliad 13 yn ei ddefnyddio i eithrio data personol rhag cael ei ddatgelu yn adlewyrchu'r dull a gymerwyd o dan Adran 4 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Access to Information

The Access to Information legislation grants the rights of access to information held by public bodies unless there is a valid reason for withholding the information.

As Headteachers, you have knowledge about the information held by your school and any issues likely to arise from the disclosure of the requested information.

Could you please consider the following in relation to all requests received:

- Is the information HELD or would you be required to create the information in order to answer the enquiry - this is of fundamental importance.
- If the information does exist, can you charge for providing it? You are entitled to charge up to a limit of £450.00 for locating, retrieving and considering non environmental information. However, you can only charge if an estimate of reasonable costs is provided to the applicant within 20 working days. There is no appropriate limit for Environmental requests but large requests can be deemed manifestly unreasonable {subject to the Public Interest Test}.
- Does the information constitute exempt information – at this stage in the process you are required to consider whether the requested information is environmental information for the purposes of the Environmental Information Regulations 2004. The two access regimes are similar but sufficiently different to result in a body of separate case law. This means that some information could be considered exempt under one regime and not the other.

  The exemptions listed in the Freedom of Information Act are either absolute exemptions which are not subject to the Public Interest test or they are qualified exemptions that are subject to the public interest test. Authorities are required to consider whether an exemption is engaged and then to consider whether the public interest is served in maintaining the exemption or in disclosing the information. Where the balance of the test of public interest is even, you are required to disclose the information. The Access to Information regimes have a pre-disposition towards disclosure.

Exemptions – Absolute

- **21 – Accessible by other means -** information is exempt information if it can be reasonably accessed by the applicant by other means, e.g. the information could be available on the school's website. Stating that the information is widely

available without directing the applicant's attention to the exact location is unlikely to conform with the law.

- **40 – Personal information -** it is relevant that the school receives requests from members of the public which contain some elements of their own personal data. Under such circumstances, this information is exempt as their own personal data would be provided to them under the Data Protection Act. The reason being is that the disclosures under the FOI are made to the world at large. Section 40(2) protects the personal data of third party individuals provided that the information falls within the definition of data under the DPA 2018 and contravene any of the data protection principles.

- **41 – Provided in confidence –** information provided in confidence is considered exempt but only if this would constitute an actionable breach of confidence, in other words, could or would a third party take the school to court with the likelihood of their action succeeding.

- **44 – Prohibitions on Disclosure –** the Act recognises the existence of statutory bars to disclosure. Some 380 pieces of legislation refer to information of which a number have express prohibitions on the disclosure of certain types of information.

Qualified Exemptions.

- **22 –Intended for future publication -** information held with a view to its publication at a future date is exempt information if it reasonable in all circumstances that the information should be withheld until the date of publication. The public interest should also be considered after deciding that the exemption is engaged.

- **30 – Investigations & Proceedings –** essentially, this section serves to ensure that the FOIA cannot be used to circumvent the rules of disclosure covering criminal investigations & proceedings.

- **31 – Law Enforcement -** this section is concerned with the likely effects of disclosure rather than the source of the information or the purpose for which it is held (as in Section 30).

- **38 – Health &Safety -** this section created a qualified exemption in relation to information, the disclosure of which might endanger the health & safety of any individual.

- **42 – Legal/ Professional Privilege -** this qualified exemption ensures that legal advice is protected subject to a test of the public interest. However, there is an inherent public interest associated in ensuring that legally privileged information is not disclosed.

- **43 – Commercial Interest –** this exemption protects the information if it constitutes a trade secret or of disclosure under the Act would be likely to prejudice the commercial interests of any person including the school. Much information is available to persons and companies who intend to do business with the school about your responsibilities under the FOIA. This exemption does not relate to commercial confidentiality but from prejudice or harm arising from disclosure.

Environmental Information Regulations 2004 – Exceptions.

All EIR Exceptions are qualified – there are no absolute exceptions.

- **Regulation 12 (4)(a) –** that the school **does not hold** the requested information at the time that the request is received.

- **Regulation 12 (4) (b) -** that the request is **manifestly unreasonable** (there is some similarity between this exception and a number of FOI exemptions – the notable difference is that the EIR presumes disclosure. The Information Tribunal explained in 2007 that the "threshold to justify disclosure is a high one"). A request that is repeated, vexatious or out of step with the appropriate limit set for the FOIA could be deemed manifestly unreasonable. This exception is subject to a test of reasonableness with the burden of responsibility being placed upon you to demonstrate why a request is unreasonable.

  Regulation 9 – this regulation requires the school to provide advice and assistance if the provisions of advice and assistance could result in the request being refined in such a way that it does not impose a burden on the school then it would be difficult to rely on this exception.

- **Regulation 12(4)(d) –** the request relates to **unfinished documents or incomplete data**. This exception covers work in progress and could be used to prevent the disclosure of draft reports or other similar unfinished work. It is considered that the Public Interest on maintaining the exception will decline once the final version of the document has been completed. When refusing a request under this exception the school must specify the estimated time in which the information will be finalised or completed.

- **Regulation 12 (4)(e) -** that a request would **involve disclosure of internal communications.** The concept of internal communications is not defined in the regulations but the purpose of this regulation is to provide a public authority with a protected thinking space. The regulation could cover circumstances similar to those in S.36 of the FOIA. It is possible that communications between the school and an external advisor or consultant could be covered by the regulation but this depends on the facts of the case.

Adverse Affect Exceptions.

Information can be withheld if disclosure would adversely affect:

- **Regulation 12(5)(a) – international relations, defence, national security or public safety** → Exceptions based on the consequences of disclosure. This exception could cover information whose disclosure would adversely impact upon the protection of the public, public buildings and industrial sites from accidents or acts of sabotage. Also in cases where the disclosure of information would have an adverse affect on the health and safety of members of the public or possibly staff of the school.

- **Regulation 12 (5)(b) – the course of justice, fair trial, conduct of a criminal or disciplinary enquiry**. This exception could include the concept of legal privilege since disclosure of private information would be detrimental to the course of justice. The point is that disclosure must adversely affect the enquiry in the sense of causing some real harm in order for the exception to be engaged. The school would then have to go on to consider and apply the public interest test.

- **Regulation 12 (5) (c) – Intellectual Property Rights** - this exception would be engaged in respect of information which was subject to copyright, patent , trademarks or formed part of a registered design. Intellectual Property Rights are rights granted to creators and owners of works that are the results of

human intellectual creativity. The exception protects the rights of the school as well as third parties. The school must be able to demonstrate that there is a real risk that disclosure would undermine the intellectual property rights.

- **Regulation 12 (5) (d) – confidentiality of public authority proceedings when covered by law** (a public authority cannot rely on this exception for environmental information that related to emissions). The meaning of the term proceedings is not limited to formal proceedings – it will not be sufficient that the information merely related to confidential proceedings - in order for this regulation to be engaged it must be the case that disclosure would adversely affect the confidentiality of proceedings. It is also clear that information must have been prepared exclusively for the purpose of the "proceedings".

- **Regulation 12 (5) (e) - confidentiality of commercial or industrial information when protected by law to cover legitimate economic interest** (a public authority cannot rely on this exception for environmental information that related to emissions). This exception does not require a potential breach of confidence to be actionable unlike the FOI. This exception could cover information supplied in relation to a tendering or procurement process and would be likely to cover information that could be of commercial value to a third party, e.g. a competitor.

- **Regulation 12 (5) (f) – the interests of the person who provided the information** (a public authority cannot rely on this exception for environmental information that related to emissions). This exception covers the interests of a person who supplied information voluntarily and supplied it in the expectation that it would not be disclosed to a third party and has not consented to its disclosure.

- **Regulation 12 (5) (g) – Protection of the Environment** (a public authority cannot rely on this exception for environmental information that related to emissions). The purpose of the EIR and the EU Directive and the AARHUS Convention upon which they are based is to increase the protection of the environment by ensuring greater access to environmental information. For instance, it would be contradictory if disclosure of information under EIR would lead to damage to the environment.

- **Regulation 13 – Personal Data –** under this regulation, the school shall not disclose personal data if disclosure could breach one of the data protection

principles of the Data Protection Act or that disclosure would contravene Section 10 of the Data Protection Act (damage or distress). The regulation 13 exception only applies to the personal data element of the environmental information - here is an expectation that personal data would be stripped out of the environmental information, by redaction for example and that the environmental information would be disclosed. The approach Regulation 13 takes to excepting personal data from disclosure mirrors the approach taken under S4 of the FOIA.